

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Alun Owen

Nos Lun Ebrill 10fed 2017 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng.
2. **Presennol:** Cyng. Gari Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Gwynfor Roberts Paul Weston a'r Cynghorydd Sirol Dilwyn Roberts ac Enid Williams (Clerc)
3. **Datgan Cysylltiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Mawrth:** cynigiwyd yn gywir gan Edmund Rees gyda Gwynfor Roberts yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
 - 5.1. Toiledau Cyhoeddus - gan fod Steven Teale wedi anfon ar brynhawn y cyfarfod yn dweud ei fod yn methu a bod yn bresennol penderfynwyd ei wahodd i'r cyfarfod nesaf i egluro'r sefyllfa. Cynigiodd Dilwyn Roberts gysylltu gyda Geraint Edwards yng Nghonwy i drafod y mater ymhellach.
 - 5.2. Offer Chwarae – yr offer oedd wedi torri wedi cael eu symud o'r parc picnic gan C.B.S.C.
 - 5.3. Gwaith atgyweirio – wedi cael amcan bris o £3120.00 am ffrâm mewn derw a £2280.00 mewn pin gan Gethin Pyrs. Teimlad oedd bod y prisiau yn uchel a phenderfynwyd edrych ar y gwaith eto.
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1 Dim.
7. **Talu Anfonebau:**
 - 7.1. Costau'r Clerc – cynigiodd Paul Weston gyda Gwynfor Roberts yn eilio talu'r costau am 4 mis o Ragfyr i Fawrth o **£204.80** gyda siec rhif **100281**.
 - 7.2. BDO – penderfynwyd na fyddwn yn talu'r anfoneb tan y cawn fwy o wybodaeth ar sut y daethon i'r swm sylweddol.
 - 7.3. **Hill & Roberts:**
Cynigiodd Edmund Rees gyda Gwynfor Roberts yn eilio talu'r anfoneb o £105.00 + TAW £21.00 = **£126.00** gyda siec rhif **100280**.
8. **Yswirio Celfi:**
Cynigiodd Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio a phawb yn gytûn ychwanegu'r Diffib ar Cabinet at bolisi'r yswiriant.
9. **Monitro'r Gyllideb:**
Ar ôl archwilio'r Gyllideb ac ar gynigiad Paul Weston gyda Gari Jones yn eilio a phawb yn gytûn cafwyd popeth yn gywir ac mewn trefn.
10. **Mantolen Ariannol 2016-17:**
 - i) Edrychwyd dros y Fantolen a'i chael yn gywir ac arwyddwyd gan y Cadeirydd.
 - ii) Cydnabod cyfrifoldeb am baratoi'r cyfrifon a chadarnhau.
11. **Sgip Gymunedol:**
Archebwyd sgip ar gyfer y gymuned ar gyfer dydd Sadwrn Mai 20fed 2017 am 9 o'r gloch y bore.
12. **Un Llais Cymru:**
Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Glastir Llanrwst gan Edmund Rees:-
 - ◇ *Anerchiad ar y Rhaglen Leader – amcan - hyrwyddo projectau o les cymdeithasol, e.e. datrys tlodi tanwydd yng nghefn gwlad, delio hefo unigrwydd, darparu grantiau ar gyfer gwella safon band eang.*
 - ◇ *Trafodaeth ar gadw Cofrestr Buddiannau ar wefan Cyngor Cymuned.*
 - ◇ *Trafodaeth ar drafferthion a diffyg ateb gan Gwmni Audit BDO. Penderfynwyd bod angen mynd a chwynion at aelodau o'r Cynulliad yn hytrach na swyddogion BDO. Pasiwyd i anfon llythyr at Mary Huws Comisiynydd Iaith i dynnu sylw at ddiffyg atebion Cymraeg gan BDO.*
 - ◇ *Llywodraeth Cymru yn edrych am leoliadau i gladdu gwastraff niwclear.*

13. **The Pensions Regulator:**
Cynigiodd Paul Weston lenwi'r ffurflen i mewn.
14. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts.** Cafwyd gair gan y Cynghorydd Sirol a dywedodd mai hwn oedd ei gyfarfod olaf gyda ni gan ei fod yn ymddeol. Diolchodd i'r Cynghorwyr am y cyd-weithio hapus dros y 15 mlynedd diwethaf.
15. **Unrhyw fater arall:**
 - 15.1.. Diolchodd y Cadeirydd Alun Owen i Dilwyn Roberts am ei gefnogaeth a'i bresenoldeb i gyfarfodydd y Cyngor Cymuned a hefyd i'r Gymuned leol dros y blynyddoedd. Ategwyd hun gan Paul Weston.
 - 15.2. Gan fod Alun Edwards wedi penderfynu peidio â sefyll fel Cynghorydd Lleol yn yr etholiad nesaf diolchwyd iddo am ei wasanaeth a chefnogaeth dros y blynyddoedd.
16. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Mai 8fed 2016 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd _____ Dyddiad 08.05.2017
Cadeirydd